Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Ebrill 2026

## Diogelu a Lles Ysgolion



Sefydlwyd **Tîm Diogelu a Lles Addysg** newydd sbon yn 2024.



Mae'r Tîm Diogelu a Lles Addysg yn **ymweld â phob ysgol unwaith y flwyddyn** i wirio bod y rheolau cywir yn cael eu dilyn.



**Cynyddwyd capasiti y Tîm Diogelu a Lles Addysg** ym mis Mawrth **2026**- mae 4 aelod o staff yn gweithio i'r tîm bellach.



Mae'r Cyngor wedi ychwanegu **gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") i'r hyfforddiant diogelu** sy'n cael ei gyflwyno i bob ysgol.


## Sefydlogi'r Ysgol



Mae **Pennaeth a Tîm Rheoli newydd** yn Ysgol Friars.



Mae **rhaglen hyfforddiant i glercod** ar gael i pob corff Llywodraethwyr Ysgolion.



Mae **Llawlyfr Llywodraethwr newydd** wedi'i greu ac wedi'i rannu gyda holl Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd.



Penodwyd **Swyddog newydd i gefnogi Llywodraethwyr Ysgolion.**

*GWNEUD GWYNEDD YN LE MWY DIOGEL I BLANT A PHOBL IFANC*

Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Ebrill 2026

## Trefniadau Diogelu Adran 5 (Pryderon ynghylch Ymarferwyr a'r rhai mewn Swydd o Ymddiriedaeth)



Mae'r **ffurflen cyfeirio honiadau o gamdriniaeth** yn haws i'w gweld ar wefan y Cyngor ac ar wefan "hwb" yr Ysgolion.



Nid oes **unrhyw benderfyniadau diogelu yn cael ei wneud gan un gweithiwr** yn unig.



Mae **cofnodion a gwybodaeth hanesyddol yn cael ei wirio** bob tro y gwneir Cyfeiriad Diogelu (Adran 5).



Mae **"Magic Notes" yn cael ei beilota** er mwyn hwyluso'r broses o gofnodi cyfarfodydd diogelu (Adran 5).



Cwblhawyd y **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd** - sef ffordd o wirio bod gwaith yr Adran Plant cael ei wneud yn dda ac yn gyson.


Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***

Ebrill 2026


## Llais y Plentyn



Mae **gweithiwr cymdeithasol yn gwneud ymdrech rhagweithiol i glywed llais pob un plentyn** sy'n destun Cyfeiriad Diogelu (Adran 5)



Mae pob ysgol yn dangos **gwybodaeth am berson annibynnol** y gall disgyblion siarad efo os oes ganddynt bryderon diogelu.



Mae gan **pob ysgol fynediad i system rheoli data electroneg** fel bod modd cofnodi newid ymddygiad mewn plentyn.



Penodwyd **swydd arbennig i helpu datblygu Fforwm Ieuenctid Gwynedd.**



Mae'r Cyngor yn cyd-weithio â phartneriaid er mwyn cynnig **cefnogaeth barhaus i'r dioddefwyr.**

GWNEUD GWYNEDD YN LE MWY DIOGEL I BLANT A PHOBL IFANC

Beth sydd wedi newid hyd yma yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Trwy ein Dewrder?***
Ebrill 2026

## Trefniadau Corfforaethol, Polis ac Hyfforddiant



Mae edrych ar **faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu yn rhan o drefniadau monitro perfformiad** pob Adran.



Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu **Polisi Canu'r Gloch newydd** i staff y Cyngor.



Penodwyd rôl **Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol** i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y Cyngor.



Mae **fideo wedi ei chreu ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant diogelu** i staff rhengflaen.

## Cynllun Argyfwng



Mae cytundeb i **gydweithio â'r Heddlu mewn argyfwng.** Gall hyn fod yn weithiwr cymdeithasol yn gweithio i'r Heddlu am gyfnod (secondiad).